



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mai 2011

Awduron: Tom Haslam, James Munden ac Elaine Matthews

Cyf: 210A2011

Moderneiddio Tâl: Contract Meddygon
Ymgynghorol y GIG

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae dull anghyson o gynllunio swyddi nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn aml yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd na'i feddygon ymgynghorol yn mwynhau holl fuddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol.

Cynnwys

Crynodeb ac Argymhellion	4
Adroddiad Manwl	
Mae lle sylweddol i wella'r ffordd y caiff y broses o gynllunio swyddi ei rheoli a'i defnyddio	7
Nid yw cynlluniau swyddi presennol yn ddigon clir nac yn ddigon manwl	7
Mae llawer o feddygon ymgynghorol wedi bod yn aros am adolygiad o'u cynlluniau swyddi ers cryn amser	7
Mae'r trefniadau cynllunio swyddi presennol wedi'u hetifeddu oddi wrth Ymddiriedolaethau rhagflaenol y GIG, ac mae angen dull cyson yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau gwelliant	8
Yn gyffredinol, nid yw'r broses o gynllunio swyddi'n defnyddio gwybodaeth gadarn	12
Ni all y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn cael gwerth am arian o sesiynau SPA a cheir gwahaniaethau mawr yn y ffordd y caiff y rhain eu dyrannu yn y Bwrdd Iechyd	13
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i leihau llwyth gwaith gormodol rhai meddygon ymgynghorol	14
Nid yw arfarniadau'r meddygon ymgynghorol yn cael eu cysylltu'n briodol â'r broses o gynllunio swyddi	16
Ar hyn o bryd mae nifer o ffactorau yn atal y broses o gynllunio swyddi rhag cefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau	17
Nid yw'r broses o gynllunio swyddi wedi'i hymgorffori'n effeithiol ym model newydd y Grwpiau Rhaglenni Clinigol hyd yma	17
Mae trefniadau newydd y Grwpiau Rhaglenni Clinigol yn rhoi cyfle i ddefnyddio'r broses o gynllunio swyddi mewn ffordd fwy adeiladol i annog newid	17
Bydd angen i'r egwyddorion cynllunio swyddi sydd wedi'u paratoi gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn ddigonol â gwendidau presennol yn y trefniadau cynllunio swyddi	19

Atodiadau

Methodoleg	21
Meincnodi sesiynau	22
Yr arolwg o feddygon ymgynghorol	26

Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n berthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti'n berthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Crynodeb

1. Contract meddygon ymgynghorol y GIG yw'r fframwaith cenedlaethol sy'n llywodraethu amodau gwaith a graddau cyflog meddygon ymgynghorol. Daeth y Diwygiad i Gontract Cenedlaethol y Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru i rym ar 1 Rhagfyr 2003, sef y newid mawr cyntaf i delerau ac amodau meddygon ymgynghorol ers 1948. Cyflwynodd y contract nifer o fuddiannau i feddygon ymgynghorol: graddfa cyflog newydd; trefniadau gwell ar gyfer taliad cydnabyddiaeth ar alw; trefniadau newydd ar gyfer dyfarniadau ymrwymiad clinigol a rhagoriaeth glinigol; ac ymrwymiad i wella trefniadau gweithio hyblyg.
2. Cyflwynwyd y contract diwygiedig er mwyn helpu i gyflawni'r buddiannau canlynol yn benodol:
 - gwella amgylchedd gwaith meddygon ymgynghorol;
 - gwella lefelau recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol; a
 - helpu rheolwyr iechyd a meddygon ymgynghorol i gydweithio i ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion yng Nghymru.
3. Mae gwaith cynllunio swyddi effeithiol yn sail i'r broses o weithredu'r contract diwygiedig ac mae'n orfodol ar gyfer pob meddyg ymgynghorol. Nod y broses o gynllunio swyddi yw sicrhau bod y meddyg ymgynghorol unigol a'i gyflogwr yn cytuno ar gynnwys ac amserlen gweithgareddau sy'n rhan o'r wythnos waith. Mae'r contract yn seiliedig ar wythnos waith lawn amser o 37.5 awr, sy'n cyfateb i 10 sesiwn o dair neu bedair awr yr un, gan sicrhau eu bod yn gyson â staff eraill y GIG. Fel arfer, dylai'r wythnos waith gynnwys cymysgedd o sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol (DCC), megis clinigau a rowndiau ward, a Gweithgareddau Proffesiynol Ategol (SPA), megis ymchwil, archwiliad clinigol ac addysgu. Nododd y contract diwygiedig y byddai'r wythnos waith fel arfer yn cynnwys saith sesiwn DCC a thair sesiwn SPA. Fodd bynnag, dylai'r rhaniad gwirioneddol rhwng y sesiynau hyn fod yn seiliedig ar ofynion penodol swydd pob meddyg ymgynghorol a dylai gael ei adolygu fel rhan o'r adolygiadau blynyddol o gynlluniau swyddi y disgwylir iddynt gael eu cynnal fel rhan o'r contract.
4. Yn 2004, comisiynwyd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru gan Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'r broses o weithredu contract y meddygon ymgynghorol, gan ganolbwyntio ar y broses o gynllunio swyddi. Ers hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi monitro'r broses o weithredu'r contract drwy broses adrodd flynyddol a ddaeth i ben yn 2009.
5. Mae llawer o arian wedi'i neilltuo i weithredu'r contract yng Nghymru drwy gostau sefydlu, taliadau sesiwn ychwanegol i feddygon ymgynghorol ac ariannu prosiect Dangosyddion Canlyniadau Meddygon Ymgynghorol (COMPASS), sydd bellach wedi'i ddirwyn i ben. Fodd bynnag, nid oes unrhyw waith archwilio allanol annibynnol wedi'i wneud i ystyried a yw buddiannau bwriadedig y contract diwygiedig yn cael eu cyflawni, ac yn benodol, a yw'r broses o gynllunio swyddi bellach wedi'i hymgorffori'n llawn fel dull trefniadol mewn cyrff yn y GIG i helpu i

ddiffinio ac adolygu cyfraniad meddygon ymgynghorol at y gwasanaethau a ddarperir.

6. Felly, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud gwaith ym mhob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG sy'n cyflogi nifer fawr o feddygon ymgynghorol. Nod y gwaith archwilio oedd ateb y cwestiwn: 'A yw buddiannau bwriadedig contract newydd y meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni?' Mae'r archwiliad wedi canolbwyntio'n benodol ar y graddau y mae gwaith cynllunio swyddi wedi'i ymsefydlu yn y Bwrdd Iechyd fel proses flynyddol a pha mor effeithiol ydyw o ran hwyluso'r gwaith o foderneiddio a gwella gwasanaethau. Hefyd, ystyriwyd amgylchedd gwaith meddygon ymgynghorol, a oedd yn rhan o nod ehangach y contract i'r GIG ddarparu gwelliannau parhaus o ran ansawdd bywydau gwaith meddygon ymgynghorol.
7. Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) ym mis Hydref 2009. Mae'n cwmpasu:
 - Dwy hen Ymddiriedolaeth y GIG, sef Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru. Ffurfiwyd yr ail yn sgîl uno Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru ym mis Ebrill 2009.
 - Chwe hen Fwrdd Iechyd Lleol (BILI): Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, a Wrecsam.
8. Ym mis Ebrill 2010, roedd ffigurau Llywodraeth y Cynulliad yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn cyflogi tua 418 o feddygon ymgynghorol. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio meddygon ymgynghorol ychwanegol sy'n gwneud cyfanswm o tua 440, ac mae mwy yn cael eu recriwtio o hyd. Mae meddygon ymgynghorol bellach yn cynrychioli tua 3 y cant o weithlu'r Bwrdd Iechyd ac maent yn chwarae rôl bwysig o ran darparu gwasanaethau, gan ddylanwadu ar ddiogelwch, ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau ynghyd â'r gwaith o'u darparu a'u cyfeiriad strategol.
9. Mae meddygon ymgynghorol yn gweithio o fewn naw o'r 11 o Grwpiau Rhaglenni Clinigol gan ddarparu gwasanaethau clinigol ar safleoedd tri phrif ysbyty yn bennaf: Ysbyty Gwynedd (Gorllewin), Ysbyty Glan Clwyd (Canol) ac Ysbyty Maelor Wrecsam (Dwyrain). Mae meddygon ymgynghorol hefyd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn yr ysbytai aciwt a'r ysbytai cymunedol llai, clinigau ac unedau iechyd meddwl ledled Gogledd Cymru ac mewn rhannau o Bowys.
10. Cynhaliwyd ein gwaith maes yn y Bwrdd Iechyd yn ystod mis Tachwedd 2010. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am ein methodoleg archwilio. Mae hyn yn cynnwys arolwg ar-lein a anfonwyd at bob meddyg ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd. Cawsom ymatebion gan 125 o feddygon ymgynghorol, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o tua 30 y cant.
11. Mae ein casgliad cyffredinol yn nodi bod dull anghyson o gynllunio swyddi nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn aml yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd na'i feddygon ymgynghorol yn mwynhau holl fuddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol.
12. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
 - mae angen gwneud gwelliant sylweddol i'r ffordd y caiff y broses o gynllunio swyddi ei rheoli a'i defnyddio; ac

- ar hyn o bryd mae nifer o ffactorau yn atal y broses o gynllunio swyddi rhag cefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau.

Argymhellion

13. Rhestrir yr argymhellion a gododd o'n gwaith archwilio isod.

A1	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y broses o gynllunio swyddi yn cael ei hymgorffori'n effeithiol o fewn strwythur newydd y Grwpiau Rhaglenni Clinigol fel ffordd o gysoni'r cynlluniau swyddi a etifeddwyd gan gyrff rhagflaenol, a sicrhau bod pob meddyg ymgynghorol yn cael adolygiad o'i gynllun swydd bob blwyddyn.
A2	Dylai'r Grwpiau Rhaglenni Clinigol ddefnyddio'r broses o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol i'w helpu i sicrhau y caiff gwasanaethau eu moderneiddio yn unol â'u cynlluniau i gefnogi cynllun pum mlynedd y Bwrdd lechyd.
A3	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob cynllun swydd yn cynnwys y manylion angenrheidiol am weithgareddau a chyfrifoldebau meddygon ymgynghorol, a'r lleoliad lle y caiff y gwaith ei wneud. Hefyd, dylid cadw cofnodion y cytunwyd arnynt o drafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfodydd i adolygu'r cynlluniau swyddi.
A4	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei ddogfen sy'n nodi egwyddorion y broses o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol o ystyried y sylwadau rydym wedi'u gwneud yn yr adroddiad hwn. Dylid cyflwyno set ddiwygiedig o egwyddorion a nodiadau canllaw i bob aelod o staff sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio swyddi i feithrin dealltwriaeth gyffredin o ddull y Bwrdd lechyd o gynllunio swyddi, gan gynnwys ei ddull o ddatblygu canlyniadau mesuradwy o weithgareddau meddygon ymgynghorol.
A5	Yn ogystal â chyhoeddi canllawiau ar drefniadau cynllunio swyddi, dylid cynnal rhaglenni hyfforddi ategol ar gyfer y grwpiau gwahanol o staff sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio swyddi.
A6	Mae angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod ei ganllawiau ar gynllunio swyddi yn diffinio beth yw gweithgarwch SPA yn glir, ynghyd â phwysigrwydd cytuno ar ganlyniadau gweithgareddau SPA gwahanol.
A7	Dylai'r Bwrdd lechyd atgyfnerthu ei drefniadau cynllunio swyddi i sicrhau y caiff yr holl wybodaeth sydd ar gael ei defnyddio i lywio trafodaethau a, lle nad oes gwybodaeth ar gael, y caiff ystod o ddangosyddion canlyniadau eu datblygu a'u cyflwyno.
A8	Bydd angen i'r Bwrdd lechyd sefydlu trefniadau sicrhau ansawdd a monitro effeithiol i sicrhau bod canllawiau ar gynlluniau swyddi yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn briodol.
A9	Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd ddatblygu a gweithredu cynllun i leihau llwythi gwaith meddygon ymgynghorol lle mae'r rhain yn ormodol.

Mae lle sylweddol i wella'r ffordd y caiff y broses o gynllunio swyddi ei rheoli a'i defnyddio

Nid yw cynlluniau swyddi presennol yn ddigon clir nac yn ddigon manwl

15. Nid oes gan y Bwrdd lechyd fan canolog i storio cynlluniau swyddi a bu'r dasg o gael gafael ar ddogfennau cynllunio swyddi ar gyfer yr archwiliad hwn yn anodd. Canfu ein hadolygiad o gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol y gwendidau cyffredinol canlynol:
- nid oes templed safonol, sy'n golygu bod llawer o fformatau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer cynlluniau swyddi;
 - nid oedd y rhan fwyaf o gynlluniau swyddi'n ddigon clir nac yn cynnwys digon o fanylion am ddyletswyddau, cyfrifoldebau, gweithgareddau a lleoliadau meddygon ymgynghorol unigol;
 - ceir sawl dehongliad gwahanol o ran beth yw sesiwn DCC, sesiwn SPA, sesiwn reoli neu sesiwn 'arall'; ac
 - nid oedd manylion am ganlyniadau disgwylidig gweithgareddau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn cael eu cofnodi fel rheol.

Mae llawer o feddygon ymgynghorol wedi bod yn aros am adolygiad o'u cynlluniau swyddi ers cryn amser

16. Pan gyflwynwyd y contract diwygiedig, disgwyliwyd y byddai pob meddyg ymgynghorol yn cael adolygiad o'i gynllun swydd bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid oes proses cynllunio swyddi flynyddol wedi'i chynnal ar gyfer llawer o'r meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y Bwrdd lechyd ar hyn o bryd ac, mewn rhai achosion, nid oes proses ystyrlon o gynllunio swyddi wedi'i chynnal ers 2004.
17. Yn ein harolwg o feddygon ymgynghorol, dim ond 43 y cant o feddygon ymgynghorol a nododd eu bod yn cael adolygiad o'u cynllun swydd bob blwyddyn. Hefyd, dangosodd yr arolwg y canlynol:
- dim ond traean o feddygon ymgynghorol (36 y cant) a oedd wedi cael adolygiad o'u cynllun swydd dros y 12 mis diwethaf;
 - roedd dros hanner (55 y cant) wedi cael adolygiad o gynllun swydd, ond dros 12 mis yn ôl; ac
 - nid oedd cynlluniau swyddi naw y cant erioed wedi'u hadolygu.
18. Roedd y cynlluniau swyddi a adolygwyd gennym yn adlewyrchu patrymau gwasanaethau nawr ac yn y gorffennol yn hytrach nag amcanion a blaenoriaethau gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Nid oedd llawer o dystiolaeth o unrhyw newidiadau i gynlluniau swyddi ers i'r Bwrdd lechyd gael ei sefydlu, ond mae modelau darparu gwasanaethau yn newid.

Er gwaethaf y gwahaniaethau a nodwyd yn y broses o gynllunio swyddi yn y Bwrdd Iechyd, nodwyd rhai meysydd annibynnol o arfer da. Er enghraifft, mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Canolog yn cynnal proses drylwyr o gynllunio swyddi bob blwyddyn. Yn y gwasanaeth hwn, mae meddygon ymgynghorol yn paratoi cyn y cyfarfod ac mae'r trafodaethau'n seiliedig ar weithgareddau ac ystadegau perfformiad adrannol, megis amseroedd aros. Nododd gwasanaeth CAMHS ei fod yn defnyddio cynlluniau swyddi i fynd i'r afael â materion fel y llwythi gwaith gormodol sydd gan rai meddygon ymgynghorol.

Mae'r trefniadau cynllunio swyddi presennol wedi'u hetifeddu oddi wrth Ymddiriedolaethau rhagflaenol y GIG, ac mae angen dull cyson yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau gwelliant

19. Sefydlodd tair Ymddiriedolaeth ragflaenol y GIG eu trefniadau cynllunio swyddi eu hunain ar ôl cyflwyno'r diwygiad i gontract y meddygon ymgynghorol yn 2003. Mae'r gwahaniaethau yn y ffordd yr oedd cyrff rhagflaenol yn cynllunio swyddi wedi arwain at wahaniaethau mawr yng nghynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol sydd â swyddi tebyg yn y Bwrdd Iechyd newydd.
20. Mae'r trefniadau cynllunio swyddi gwahanol a etifeddwyd gan y Bwrdd Iechyd yn golygu bod meddygon ymgynghorol yn y Canol a'r Dwyrain yn cael mwy o sesiynau SPA ar gyfartaledd na meddygon ymgynghorol yn y Gorllewin (Arddangosyn 1). Hefyd, mae'r termau 'arall' a 'rheoli' yn cael eu defnyddio'n wahanol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn fwy amlwg ar lefel arbenigeddau (Arddangosyn 2). Ceir dadansoddiad llawn o arbenigeddau yn Atodiad 1.

Arddangosyn 1: Newid yn nifer gyfartalog y sesiynau rhwng 2007-08 a 2009-10 ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfan swm
2009-10					
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canol a Dwyrain	8.48	2.72	0.08	0.16	11.44
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gorllewin	8.65	2.28	0.37	0.09	11.38
<i>Cyfartaledd Cymru</i>	<i>8.34</i>	<i>2.60</i>	<i>0.14</i>	<i>0.13</i>	<i>11.21</i>
2008-09					
Ymddiriedolaeth Gogledd Cymru (Canol a Dwyrain)	8.50	2.71	0.09	0.15	11.46
Ymddiriedolaeth Gogledd-orllewin Cymru (Gorllewin)	8.79	2.24	0.31	0.07	11.41
<i>Cyfartaledd Cymru</i>	<i>8.36</i>	<i>2.57</i>	<i>0.22</i>	<i>0.14</i>	<i>11.29</i>

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
2007-08					
Ymddiriedolaeth Conwy a Sir Ddinbych (Canol)	8.84	2.77	0.08	0.02	11.71
Ymddiriedolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru (Dwyrain)	8.19	2.61	0.14	0.23	11.16
Ymddiriedolaeth Gogledd-orllewin Cymru (Gorllewin)	8.90	2.20	0.32	0.06	11.48
<i>Cyfartaledd Cymru</i>	<i>8.45</i>	<i>2.61</i>	<i>0.26</i>	<i>0.14</i>	<i>11.46</i>

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 2: Gwahaniaethau mewn cynlluniau swyddi o fewn arbenigeddau

	DCC	SPA	Arall	Rheolwyr	Cyfanswm
Gorllewin Damweiniau ac Achosion Brys	7.94	2.53	0.27	0.00	10.74
Canol a Dwyrain Damweiniau ac Achosion Brys	8.00	3.03	0.00	0.38	11.41
Gorllewin Anestheteg	8.78	2.95	0.10	0.11	11.93
Canol a Dwyrain Anestheteg	8.39	2.53	0.00	0.18	11.10
Gorllewin Cardioleg	10.00	1.33	0.49	0.00	11.82
Canol a Dwyrain Cardioleg	8.50	3.00	0.00	0.00	11.50
Gorllewin Dermatoleg	9.57	1.14	0.40	0.50	11.61
Canol a Dwyrain Dermatoleg	7.90	2.69	0.00	0.00	10.59
Gorllewin Clust, Trwyn a Gwddf	8.67	2.15	0.25	0.00	11.07
Canol a Dwyrain Clust, Trwyn a Gwddf	9.06	2.57	0.14	0.00	11.77
Gorllewin Meddygaeth Gyffredinol	8.40	2.73	0.00	0.00	11.13
Canol a Dwyrain Meddygaeth Gyffredinol	7.67	3.00	0.00	0.22	10.89
Gorllewin Llawdriniaeth Gyffredinol	10.16	1.99	0.24	0.01	12.40
Canol a Dwyrain Llawdriniaeth Gyffredinol	9.55	2.36	0.12	0.41	12.43
Gorllewin Gynecoleg	7.75	2.17	0.61	0.00	10.53
Canol a Dwyrain Gynecoleg	8.52	2.96	0.00	0.24	11.72
Gorllewin Offthalmoleg	8.47	1.71	0.51	0.00	10.68
Canol a Dwyrain Offthalmoleg	9.00	2.40	0.00	0.00	11.40

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Gorllewin Radioleg	7.06	2.42	0.82	0.16	10.45
Canol a Dwyrain Radioleg	10.03	2.67	0.06	0.17	12.92
Gorllewin Trawma ac Orthopedeg	9.83	1.69	0.23	0.00	11.76
Canol a Dwyrain Trawma ac Orthopedeg	9.55	2.39	0.00	0.07	12.00

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru

21. Gellir gwneud rhai arsylwadau lefel uchel o'r wybodaeth a gyflwynir yn Arddangosion 1 a 2:
- mae cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol yng Ngorllewin Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dueddol o gynnwys mwy o sesiynau a ddosberthir fel 'arall', er nad yw'n glir pa weithgareddau a gwmpesir gan y sesiynau hyn; ac
 - mae cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol yng Nghanol ac yn Nwyrain y Bwrdd Iechyd yn dueddol o gynnwys mwy o sesiynau rheoli.
22. Hefyd, nododd archwilwyr fod y ddwy ardal yn cyfrifo sesiynau mewn ffyrdd gwahanol; mae cynlluniau swyddi'r Gorllewin yn cael eu cyfrifo i ddau le degol tra bod cynlluniau swyddi'r Canol a'r Dwyrain yn cynnwys cymysgedd o sesiynau llawn a rhannau o sesiynau. Yn ein cyfweiliadau, roedd meddygon ymgynghorol yn ymwybodol iawn o'r arferion cynllunio swyddi gwahanol a etifeddwyd oddi wrth gyrff rhagflaenol, ac roeddent yn poeni y gallai anghydraddoldebau fodoli tra bod y trefniadau hyn ar waith.
23. Mae Arddangosyn 3 yn dangos sut mae nifer gyfartalog y sesiynau cynllunio swyddi yn y Bwrdd Iechyd yn cymharu â sefydliadau eraill y GIG yng Nghymru. Ac eithrio'r nifer gymharol uchel o sesiynau 'arall' yng Ngorllewin Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw bod gan y Bwrdd Iechyd y gyfran isaf o feddygon ymgynghorol sy'n gweithio'n rhan amser (llai na 10 sesiwn yr wythnos) o gymharu â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill, sef tua phump y cant. Ni roddwyd gwybodaeth i'r archwilwyr a fyddai'n esbonio'r gwahaniaeth hwn. Fodd bynnag, mae rheolwyr y Bwrdd Iechyd wedi awgrymu y gall rhai o'r gwahaniaethau fod o ganlyniad i'r nifer isel o feddygon ymgynghorol sydd â chontractau academaidd. Mae gan fyrddau Iechyd eraill nad ydynt yn fyrddau Iechyd prifysgolion niferoedd uwch o feddygon ymgynghorol rhan amser hefyd, ac mae angen deall y rhesymau dros hyn.

Arddangosyn 3: Nifer gyfartalog y sesiynau ar gyfer Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau a lefelau meddygon ymgynghorol rhan amser yn 2009-10

Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm	Canran y meddygon ymgynghorol rhan amser
ABM	8.49	2.41	0.26	0.04	11.20	9.3%
Aneurin Bevan	8.20	2.83	0.01	0.22	11.26	10.1%
Caerdydd a'r Fro	8.23	2.84	0.15	0.13	11.34	21.2%
Cwm Taf	8.26	2.32	0.15	0.14	10.87	13.6%
Felindre	7.87	2.74	0.00	1.03	11.64	11.8%
Hywel Dda	8.49	2.37	0.01	0.00	10.87	8.9%
Iechyd Cyhoeddus Cymru	7.65	2.86	0.03	0.00	10.55	27.6%
Powys	7.87	1.67	1.26	0.36	11.16	20.0%
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canol a Dwyrain	8.48	2.72	0.08	0.16	11.44	5.0%
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gorllewin	8.65	2.28	0.37	0.09	11.38	
Cyfartaledd Cymru	8.34	2.60	0.14	0.13	11.21	13.0%

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru

24. Yn aml, mae gan feddygon ymgynghorol sy'n gweithio i'r GIG ar gontractau llai na llawn amser swyddi academaidd lle maent hefyd yn gweithio'n rhan amser i'r brifysgol leol. Gall meddygon ymgynghorol sydd â chontractau academaidd wynebu galwadau amrywiol ar eu hamser gan y ddau gyflogwr. Am y rheswm hwn, dylai cynrychiolwyr y brifysgol gymryd rhan yn y broses o gynllunio swyddi er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth glir o ofynion y brifysgol a'r Bwrdd Iechyd. Yn ein harolwg, roedd gan wyth ymatebydd gontract academaidd ond dim ond un ohonynt a gafodd unrhyw fath o adborth gan y brifysgol o ran yr adolygiad o'i gynllun swydd. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa'r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol sydd â chontractau academaidd ac mae lle i wella'r trefniadau presennol drwy atgyfnerthu cyfranogiad prifysgolion. Daw hyn yn bwysicach wrth i'r Bwrdd Iechyd ehangu ei gysylltiadau â'r brifysgol ac wrth i nifer y contractau academaidd gynyddu.

Yn gyffredinol, nid yw'r broses o gynllunio swyddi'n defnyddio gwybodaeth gadarn

25. Mae'r contract yn nodi y dylai arfarniadau ac adolygiadau o gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol fod yn seiliedig ar wybodaeth am faint o waith y mae'r meddyg ymgynghorol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn flaenorol a'i ansawdd. Dylai'r ddwy broses gynnwys trafodaeth am ganlyniadau gwasanaethau, a chynlluniau datblygu personol cysylltiedig, gan gynnwys i ba raddau y mae'r rhain wedi'u cyflawni.
26. Canfuwyd bod cynnwys a ffocws cyfarfod y cynllun swydd yn amrywio yn y Bwrdd Iechyd. Nododd y meddygon ymgynghorol y gwnaethom siarad â hwy mai prif ffocws cyfarfod y cynllun swydd oedd eu hamserlen a'u dyletswyddau clinigol, gyda llai o bwyslais ar ddata perfformiad. Nododd y rhan fwyaf ohonynt nad oedd cysylltiad rhwng yr adolygiad o'r cynllun swydd a gwaith rheoli perfformiad. Nododd rhai meddygon ymgynghorol fod data perfformiad yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd arfarnu yn hytrach nag adolygiadau o gynlluniau swyddi.
27. Nododd y rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr clinigol y gwnaethom siarad â hwy mai cyfarfodydd timau arbenigeddau oedd y fforwm a dderbyniwyd ar gyfer trafod data gweithgarwch a pherfformiad. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd llawer o wybodaeth ar gyfer y cyfarfod i adolygu'r cynllun swydd. Er ei bod yn bwysig trafod perfformiad drwy gydol y flwyddyn, mae'r adolygiad o gynllun swydd yn rhoi'r cyfle i ganolbwyntio ar y materion sy'n wynebu meddyg ymgynghorol unigol. Mae angen gwybodaeth dda i gefnogi trafodaethau am berfformiad a nodi meysydd i'w gwella a'r cyfyngiadau y gall meddyg ymgynghorol unigol eu hwynebu wrth ddarparu'r gwasanaeth.
28. Er na chaiff y broses o gynllunio swyddi ei hategu gan wybodaeth gadarn yn gyffredinol, mae'r defnydd o ddata yng nghyfarfodydd cynllunio swyddi yn amrywio mewn gwahanol rannau o'r Bwrdd Iechyd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae meddygon ymgynghorol yn dod â'u cynlluniau swyddi presennol, dyddiaduron llawn ac, o bosibl, peth data ar weithgarwch. Canfu ein harolwg y canlynol:
- defnyddiodd y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol (82 y cant) eu gwybodaeth eu hunain i baratoi am yr adolygiad o'u cynllun swydd; a
 - defnyddiodd cyfran lawer llai o feddygon ymgynghorol (32 y cant) wybodaeth y Bwrdd Iechyd fel sail ar gyfer adolygiadau o gynlluniau swyddi.
29. Mae rhai arbenigeddau yn gwneud gwelliannau i'w systemau gwybodaeth, a bydd y rhain, yn eu tro, yn darparu gwybodaeth well i ategu'r broses o gynllunio swyddi. Er enghraifft, canfuwyd bod Patholeg a Radioleg yn cysoni eu systemau adrodd presennol sy'n benodol i ysbytai er mwyn cynhyrchu rhagor o ddata sy'n seiliedig ar Fyrddau Iechyd. Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae:
- ychydig o waith meincodi mewn perthynas â chynhyrchiant meddygon ymgynghorol unigol yn y Grŵp Rhaglenni Clinigol Llawdriniaeth;
 - cynlluniau i gyflwyno safonau perfformiad clinigol yn y Grŵp Rhaglenni Clinigol Meddygol; a
 - chyflwyno meini prawf perfformiad unigol yn seiliedig ar dargedau corfforaethol yn y Grŵp Rhaglenni Clinigol Meddygol (Gorllewin).

Ni all y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn cael gwerth am arian o sesiynau SPA a cheir gwahaniaethau mawr yn y ffordd y caiff y rhain eu dyrannu yn y Bwrdd Iechyd

30. Mae sesiynau SPA yn cwmpasu nifer o weithgareddau sy'n ategu sesiynau DCC, gan gynnwys addysgu, datblygiad proffesiynol parhaus, archwiliadau clinigol ac arfarniadau. Dylid cytuno ar y sesiynau hyn yn ystod yr adolygiad o gynllun swydd a gellid eu trefnu yn ystod yr wythnos.
31. Mae contract y meddygon ymgynghorol yn nodi er bod lleoliadau rhai gweithgareddau SPA (megis addysgu) yn debygol o fod yn rhai rhagnodedig, y gall gweithgareddau eraill (megis paratoi cyflwyniadau) gael eu cynnal yn un o blith nifer o leoliadau. Fel arfer, gall meddygon ymgynghorol weithio un sesiwn SPA yr wythnos gartref neu i ffwrdd oddi wrth eu man gwaith arferol. Nid yw cynlluniau swyddi presennol yn nodi lle y mae gweithgarwch SPA yn cael ei gynnal felly ni all y Bwrdd Iechyd fonitro faint o weithgarwch SPA sy'n cael ei gynnal i ffwrdd oddi wrth y Bwrdd Iechyd.
32. Mae'r sesiynau SPA yn fuddsoddiad sylweddol gan y Bwrdd Iechyd sy'n helpu meddygon ymgynghorol i wella eu sgiliau, cynnal gwaith ymchwil, datblygu technegau newydd ac adeiladu gwasanaethau newydd. Er bod gan y meddygon ymgynghorol rywfaint o ryddid i ddewis pa weithgareddau SPA y mae am fynd i'r afael â hwy, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi manteisio ar y cyfle a gynigir gan y contract i lywio'r pynciau SPA a ddewisir er mwyn datblygu ei flaenoriaethau neu ei amcanion ymhellach.
33. Dylai'r adolygiad o'r cynllun swydd a'r arfarniad gynnwys asesiad o'r hyn y mae'r meddygon ymgynghorol wedi'i gyflawni yn ei sesiynau SPA. Canfuwyd rhai enghreifftiau o graffu mewn meysydd lle yr oedd y broses o gynllunio swyddi wedi'i chynnal yn ddiweddar, ond nid dyma'r achos ar gyfer y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi unrhyw ofyniad safonol i feddygon ymgynghorol ddarparu tystiolaeth o'u gweithgareddau SPA na diffinio canlyniadau disgwylidig gweithgareddau yn y dyfodol. O ganlyniad i hyn, pan gaiff trafodaethau am sesiynau SPA eu cynnal, maent yn dueddol o fod yn gyffredinol a chwmpasu meysydd fel addysgu a chyfrifoldebau archwilio. Mae ein harolwg yn dangos mai dim ond 22 y cant o feddygon ymgynghorol a nododd fod eu cynlluniau swyddi'n nodi canlyniadau disgwylidig eu sesiynau SPA yn glir.
34. Mae dadansoddiad pellach o ddata ar sesiynau SPA (Arddangosyn 4) yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y caiff sesiynau SPA eu dyrannu i feddygon ymgynghorol yn nhair ardal yr hen Ymddiriedolaethau. Roedd gan lawer llai o feddygon ymgynghorol yn y Gorllewin fwy na dwy sesiwn SPA o gymharu â'r rhai yn yr ardaloedd eraill. Dylid blaenoriaethu'r gwaith o reoli'r anghysondebau hyn a sicrhau bod SPA yn darparu gwerth am arian ar lefel meddygon ymgynghorol unigol ac ar lefel y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 4: Nifer y meddygon ymgynghorol â mwy na dwy sesiwn SPA yn 2007-08 a 2009-10

	Nifer y meddygon ymgynghorol â >2.00 SPA	Nifer y meddygon ymgynghorol	Canran y meddygon ymgynghorol â >2.00 SPA
2009-10			
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canol a Dwyrain	203	284	71%
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gorllewin	70	134	52%
2007-08			
Ymddiriedolaeth Conwy a Sir Ddinbych (Canol)	113	138	82%
Ymddiriedolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru (Dwyrain)	83	141	59%
Ymddiriedolaeth Gogledd-orllewin Cymru (Gorllewin)	60	126	48%

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i leihau llwyth gwaith gormodol rhai meddygon ymgynghorol

35. Un o nodau contract y meddygon ymgynghorol oedd gwella amodau gwaith meddygon ymgynghorol drwy leihau'r wythnos waith i 10 sesiwn dros 37.5 awr a hyrwyddo gweithio hyblyg. Am y rheswm hwn, mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn gweithio gyda meddygon ymgynghorol sydd â llwythi gwaith gormodol i leihau nifer y sesiynau a weithir ganddynt. Mae gweithio gormod o oriau yn peri risgiau o ran llywodraethu clinigol a deddfwriaeth oriau gwaith a gall hefyd gyfyngu ar allu meddyg ymgynghorol i gyflawni ei ymrwymadau proffesiynol megis Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
36. Yn y Bwrdd Iechyd, mae 82 o feddygon ymgynghorol â chontractau o fwy na 12.5 sesiwn. Mae Arddangosyn 5 yn dangos bod y gyfran o feddygon ymgynghorol sy'n gweithio 12.5 neu fwy o sesiynau yn y Gorllewin yn debyg i gyfartaledd Cymru, tra bod y ffigurau yn y Canol a'r Dwyrain ymysg yr uchaf yng Nghymru.

Arddangosyn 5: Cyfran y meddygon ymgynghorol o'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth sy'n gweithio mwy na 12.5 sesiwn yr wythnos

Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth	Canran y meddygon ymgynghorol llawn amser sy'n gweithio mwy na 12.5 sesiwn yr wythnos
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	15.2%
Aneurin Bevan	13.4%
Betsi Cadwaladr, Canol a Dwyrain	22.2%
Betsi Cadwaladr, Gorllewin	14.2%
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	21.0%
Cwm Taf	8.3%

Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth	Canran y meddygon ymgynghorol llawn amser sy'n gweithio mwy na 12.5 sesiwn yr wythnos
Hywel Dda	12.3%
Iechyd Cyhoeddus Cymru	dim
Felindre	22.7%
Cymru Gyfan	13.9%

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru

37. At hynny, dangosodd ein harolwg mai dim ond 33 y cant o'r holl feddygon ymgynghorol sydd o'r farn bod eu cynlluniau swyddi'n adlewyrchu eu horiau gwaith a'u hymrwymadau'n gywir. Golyga hyn fod nifer y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio gormod o oriau wedi'i thanddatgan o bosibl. Aeth y Bwrdd Iechyd ati i nodi meddygon ymgynghorol a oedd yn gweithio nifer fawr o sesiynau y llynedd. Dadansoddwyd y data a chymerwyd rhai camau i leihau'r llwyth gwaith gormodol.
38. Gall cyfarwyddiaethau ddefnyddio cynlluniau swyddi'r tîm i reoli gwaith yn decach yn y tîm o feddygon ymgynghorol. Canfuwyd bod gwaith tîm yn gwella a bod mwy o waith yn cael ei wneud ar gynllunio swyddi'r tîm mewn rhai meysydd. Canfu ein harolwg fod 23 y cant o'r meddygon ymgynghorol wedi cael adolygiad o gynllun swydd tîm. Gwelwyd rhai enghreifftiau lleol o feddygon ymgynghorol a oedd yn cynllunio swyddi fel tîm. Er enghraifft:
- Cynhaliodd y gyfarwyddiaeth Anestheteg (Canol) adolygiad o gynlluniau swyddi yn seiliedig ar ymarfer dyddiadur chwe wythnos a oedd yn gysylltiedig â'i rota chwe wythnos y mae'r tîm yn fodlon arno.
 - Cynhaliodd y cyfarwyddiaethau Obstetreg a Gynecoleg (Gorllewin) broses o gynllunio swyddi timau yn ddiweddar, a chytunodd meddygon ymgynghorol i leihau nifer eu sesiynau eu hunain o 12 i 10 fel y gellid penodi meddyg ymgynghorol newydd gan ddefnyddio'r sesiynau gwag.
 - Roedd y gyfarwyddiaeth Batholeg wedi dadansoddi ei llwyth gwaith, llunio cynllun dosbarthu syml o ran ei gymhlethdod ac yna ei rannu'n deg ymysg meddygon ymgynghorol. Yna, defnyddiwyd y ffigurau hyn i gynllunio

gweithgarwch mewn cynlluniau swyddi. Bwriedir mireinio'r system hon i gyflwyno llwythi gwaith wedi'u pwysoli.

- Mae Gwasanaethau Menywod (Gorllewin) wedi seilio eu cynlluniau swyddi ar weithgarwch a chynhyrchiant, gyda'r cynlluniau swyddi'n cael eu llunio ochr yn ochr â'r gwaith o reoli perfformiad ac arfarnu.

Nid yw arfarniadau'r meddygon ymgynghorol yn cael eu cysylltu'n briodol â'r broses o gynllunio swyddi

39. Mae'r contract yn nodi y dylai fod cysylltiad agos rhwng y broses o gynllunio swyddi a'r cynllun arfarnu y cytunwyd arno ar gyfer meddygon ymgynghorol. Mae arfarnu'n broses lle yr adolygir gwaith a pherfformiad meddyg ymgynghorol, er mwyn atgyfnerthu a gwella perfformiad da a phennu anghenion datblygu. Dylai trafodaeth yr arfarniad gwmpasu arferion gwaith, cyfrifoldebau llywodraethu clinigol a datblygiad proffesiynol parhaus fel y nodir yn y cynllun datblygu personol y cytunwyd arno ar gyfer y meddyg ymgynghorol. Dylai'r cynllun swydd styried canlyniadau trafodaeth yr arfarniad. Mae'n bwysig i feddygon ymgynghorol gael arfarniadau blynyddol a'u dogfennu am resymau yn ymwneud ag ailddilysu¹ mewn blynyddoedd i ddod.
40. Yn gyffredinol, ychydig iawn o enghreifftiau o gysylltiadau uniongyrchol rhwng cynllunio swyddi, arfarnu a rheoli perfformiad a welwyd yn ystod yr archwiliad. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o arfer da yn bodoli mewn meysydd fel Obstetreg a Gynecoleg (Gorllewin), Radioleg a Chanser. Yn benodol, roedd cyfarwyddwr clinigol CAMHS o'r farn bod cynllunio swyddi, arfarnu a pherfformiad yn rhannau hanfodol o broses integredig ehangach i helpu i weithredu'r adran. Hefyd, cawsom wybod am gynlluniau i wella'r cysylltiadau rhwng arfarnu a chynllunio swyddi ym maes Patholeg.
41. Yn nodweddiadol, mae mwy o flaenoriaeth wedi'i rhoi i arfarniadau o gymharu â'r broses o gynllunio swyddi a nododd llawer o'r meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd gennym eu bod wedi cael arfarniadau bob blwyddyn ers 2004. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n dewis cael arfarniadau yn amrywio yn yr hen Ymddiriedolaethau, gyda systemau gwahanol ar waith ym mhob ardal. Ceir rhai enghreifftiau o arfer da. Yn y cyfarwyddiaethau Anestheteg a Llawdriniaeth (Canol), cafodd meddygon ymgynghorol hyfforddiant cadarn ar arfarnu a chynhaliwyd arfarniadau gyda meddygon ymgynghorol o arbenigeddau eraill. Cynhaliwyd arfarniadau cyn y broses o gynllunio swyddi fel y gellid newid cynllun swydd y meddyg ymgynghorol pe bai angen yn sgîl yr arfarniad. Yn y Gorllewin, mae gan Ysbyty Gwynedd reolwr arfarnu a drefnodd arfarniadau gan ddefnyddio Pecyn Cymorth y GIG, ond mae'n symud nawr i system a ddatblygwyd gan Ddeoniaeth Cymru.

¹ Ers 16 Tachwedd 2009, dim ond meddygon sydd wedi'u cofrestru â thrwydded i ymarfer a all weithio fel meddyg yn y GIG. Bydd yn rhaid adnewyddu trwyddedau yn rheolaidd drwy eu hailddilysu. Er nad yw'r union broses ar gyfer ailddilysu wedi'i chadarnhau eto, mae'n debygol y bydd angen tystiolaeth o arfarniadau blynyddol.

Ar hyn o bryd mae nifer o ffactorau yn atal y broses o gynllunio swyddi rhag cefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau

Nid yw'r broses o gynllunio swyddi wedi'i hymgorffori'n effeithiol ym model newydd y Grwpiau Rhaglenni Clinigol hyd yma

42. O fewn strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd, mae gan y Grwpiau Rhaglenni Clinigol gyfrifoldeb ffurfiol dros gynllunio swyddi, a disgwylir i Benaethiaid Staff a'u cyfarwyddwyr clinigol arwain y gwaith. Ar adeg yr archwiliad, nid oedd pob swydd haen pedwar yn y Grwpiau Rhaglenni Clinigol wedi'u llenwi'n barhaol a olygai bod trefniadau rheoli dros dro ar waith islaw lefel y Pennaeth Staff Cyswllt.
43. I raddau, gallai hyn esbonio'r ffaith nad yw rhai Grwpiau Rhaglenni Clinigol wedi gwneud llawer o gynnydd o ran yr agenda cynllunio swyddi. Fodd bynnag, mae Grwpiau Rhaglenni Clinigol eraill fel Canser a Llawdriniaeth wedi gwneud cynnydd, ac wedi bod yn gwneud hynny ers i'r Bwrdd Iechyd gael ei sefydlu.
44. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o fodolau arwain newydd, bydd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod clinigwyr yn deall sut y bydd y llinellau atebolrwydd newydd yn gweithio. Nododd rhai meddygon ymgynghorol fod y modd y bydd y strwythurau a'r rhwydweithiau newydd yn gweithredu yn dal i fod yn aneglur, a bod y broses ad-drefnu wedi peri i rai meddygon ymgynghorol deimlo fel eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth uwch reolwyr. Codwyd pryderon hefyd gan nifer fach o reolwyr nad oedd ganddynt yr awdurdod angenrheidiol i ymgymryd â'r broses o gynllunio swyddi.

Mae trefniadau newydd y Grwpiau Rhaglenni Clinigol yn rhoi cyfle i ddefnyddio'r broses o gynllunio swyddi mewn ffordd fwy adeiladol i sicrhau newid

45. Canfu'r archwiliad nad oedd llawer o dystiolaeth o gydberthynas rhwng cynllun swydd meddyg ymgynghorol ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Un o'r rhesymau dros hyn yw nad oes gan lawer o Grwpiau Rhaglenni Clinigol gynlluniau diffiniol ar gyfer cyflawni amcanion strategaeth ehangach y Bwrdd Iechyd a nodir yn ei gynllun pum mlynedd. Canfuwyd bod cynlluniau sylfaenol y Grwpiau Rhaglenni Clinigol ar gamau datblygu amrywiol. Bydd canlyniadau'r adolygiad o wasanaethau yn llywio'r rhan fwyaf o'r datblygiadau o ran gwasanaethau a ddisgwylwyd ar ôl sefydlu'r Bwrdd Iechyd. Roedd y rhan fwyaf o glinigwyr y gwnaethom siarad â hwy yn cefnogi'r adolygiad o wasanaethau, ond yn teimlo'n rhwystredig ei fod yn cymryd mor hir.
46. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff yr adolygiad o wasanaethau ei gwblhau ac yna ei ategu gan gynlluniau ariannol a chynlluniau gweithlu gwasanaethau wedi'u ffurfioli ar lefel y Grwpiau Rhaglenni Clinigol, neu bydd yn anodd defnyddio cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol fel ffordd o bennu sut mae gwaith meddyg ymgynghorol unigol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion

y Bwrdd Iechyd. Roedd rhai cyfarwyddwyr clinigol yn teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r anweithgarwch presennol a nodwyd bod cyfleoedd wedi'u colli i ymgysylltu â meddygon ymgynghorol.

47. Unwaith y bydd y cynlluniau angenrheidiol ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau ar waith, bydd angen sicrhau y caiff adolygiadau o gynlluniau swyddi eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod gweithgareddau'r meddygon ymgynghorol yn cefnogi amcanion sefydliadol ehangach. Fel y nodwyd yn gynharach, mae llawer o le i wella'r broses o gynllunio swyddi a'i hallbynnau. Caiff hyn ei gadarnhau gan yr ymatebion i'n harolwg o feddygon ymgynghorol, a ddangosodd y gellir atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng y broses o gynllunio swyddi a'r gwaith o foderneiddio a gwella gwasanaethau (Arddangosyn 6).

Arddangosyn 6: Defnyddio'r broses o gynllunio swyddi i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau

Cwestiwn arolwg	Canran y meddygon ymgynghorol a atebodd 'ie'	
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Cymru Gyfan
A ydych o'r farn bod yr adolygiad o'ch cynllun swydd wedi bod yn gyfle i drafod y posibilrwydd o foderneiddio gwasanaethau a chyflwyno ffyrdd arloesol a newydd o weithio?	40.7	47.1
A ydych o'r farn i'r adolygiad o'ch cynllun swydd eich annog i drafod y camau a allai gael eu cymryd i wella arfer clinigol?	36.4	46.3

Ffynhonnell: Arolwg o feddygon ymgynghorol Swyddfa Archwilio Cymru

48. Gall y broses o bennu amcanion fod yn ddull allweddol o gysoni gweithgarwch meddyg ymgynghorol â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd. Dylai'r cynllun swydd gynnwys canlyniadau disgwylidig sy'n nodi dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y mae'r meddyg ymgynghorol a'r Bwrdd Iechyd am ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf. Mae angen i'r canlyniadau disgwylidig fod yn gadarn, CAMPUS² ac wedi'u cysylltu'n benodol â strategaeth y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ni fu llawer o gysylltiadau trefnus rhwng y gwaith o ddatblygu gwasanaethau'r sefydliad a'r broses o gynllunio swyddi, arfarniadau a datblygiad proffesiynol parhaus yn y gorffennol. Dim ond 25 y cant o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a gytunodd fod ganddynt amcanion personol clir bellach sy'n gysylltiedig â'r gwaith o wella gwasanaethau.

² CAMPUS - dylai amcanion, canlyniadau a thargedau perfformiad fod yn Gyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

Bydd angen i'r egwyddorion cynllunio swyddi gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn ddigonol â gwendidau presennol yn y trefniadau cynllunio swyddi

49. Mae'n bwysig bod canllawiau clir ar gynllunio swyddi fel bod meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn deall yr egwyddorion sy'n llywodraethu'r prosesau o gynllunio swyddi a rheoli contract y meddygon ymgynghorol a'u hamcanion. Dylai'r amcanion hyn gynnwys sut y gall meddygon ymgynghorol gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau'r fframwaith gweithredu blynyddol, datblygu a moderneiddio gwasanaethau, gwella canlyniadau i gleifion a sicrhau gwerth am arian drwy ddefnyddio adnoddau'r gwasanaeth iechyd. Nid oes rhaid i'r canllawiau nodi proses bendant i'w dilyn o ran cynllunio swyddi, ond dylai ganiatáu hyblygrwydd o ran dehongliadau a defnydd lleol o fewn meini prawf cyffredinol y canllawiau.
50. Dylai'r canllawiau hyn gael eu hategu gan hyfforddiant cynhwysfawr i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio swyddi.
51. Chwaraeodd y cyfarwyddwyr meddygol cynorthwyol ran allweddol o ran helpu'r Bwrdd Iechyd i ddrafftio dogfen o egwyddorion ar gyfer y broses o gynllunio swyddi, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Trafod Lleol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd gweithdy wedi'i drefnu i drafod y broses o gynllunio swyddi ymhellach gyda'r Pwyllgor Trafod Lleol.
52. Mae'r ddogfen o egwyddorion y broses o gynllunio swyddi yn gwneud nifer o ddatganiadau sy'n ymwneud ag arfer da:
- mae'n cydnabod pwysigrwydd yr adolygiad blynyddol o gynlluniau swyddi fel cyfle unigryw i gyflogwyr a meddygon ymgynghorol gwrdd â'i gilydd;
 - dylid defnyddio amser SPA er budd cleifion, y gwasanaeth a'r clinigwr unigol; a
 - dylid cytuno ar ganlyniadau bob blwyddyn.
53. Fodd bynnag, ni fydd y ddogfen egwyddorion ar ei ffurf bresennol yn datrys y materion a nodir yn yr adroddiad hwn. Mae gennym dri phrif bryder.
54. Ein pryder cyntaf yw bod y ddogfen egwyddorion yn awgrymu nad oes rhaid cynnal cyfarfodydd i adolygu cynlluniau swyddi bob blwyddyn. Mae'n nodi bod proses o gynnig cynllun swydd yn addas os yw'r ddau barti yn cytuno eu bod yn fodlon ar y cynllun swydd, y taliad cydnabyddiaeth a'r canlyniadau. Llythyr yw'r broses o gynnig cynllun swydd, a dylai'r meddyg ymgynghorol a'r cyfarwyddwr clinigol neu'r rheolwr cyffredinol ei lofnodi. Mae'n nodi mai dim ond o dan amgylchiadau penodol y mae angen cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, er enghraifft lle mae angen gwneud newidiadau i'r cynllun swydd neu'r canlyniadau, ond bod rhaid cynnal cyfarfod o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae adolygiadau blynyddol o gynlluniau swyddi'n un o ofynion y contract. Er y gall cyfarfodydd blynyddol i gynllunio swyddi ddefnyddio cryn dipyn o adnoddau, maent yn fforwm bwysig i gefnogi'r meddyg ymgynghorol i flaenoriaethu gwaith a lleihau llwythi gwaith gormodol yn ogystal â hwyluso'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau.
55. Ein hail bryder yw'r datganiad sy'n nodi y dylai pob meddyg ymgynghorol cyfwerth ag amser cyflawn fod yn gweithio 'craidd sefydlog o ddau SPA' er mwyn sicrhau y gall ddarparu tystiolaeth ddigonol i'w ailrwyddedu a'i ailddilysu. Hefyd, byddai trydedd sesiwn SPA yn cael ei defnyddio wedyn ar gyfer gweithgareddau eraill fel

addysgu. Nid yw'r contract yn nodi pa gyfran o SPA y dylid ei defnyddio ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Dylid dyrannu holl amser y sesiynau SPA yn unol â'r angen i feddygon ymgynghorol unigol gyflawni gweithgareddau penodol sy'n sail i'r sesiynau DCC, a dylid cytuno ar yr amser hwn mewn trafodaethau.

56. Mae ein trydydd pryder yn ymwneud â chanlyniadau. Mae egwyddor 4, yn gywir ddigon, yn cyfeirio at bedwar categori o ganlyniadau, sef corfforaethol, Grwpiau Rhaglenni Clinigol, lefel gwasanaeth ac unigol. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen egwyddorion yn cynnwys unrhyw fanylion am sut y caiff y rhain eu pennu neu eu monitro os na chaiff cyfarfod cynllun swydd blynyddol ei gynnal.

Atodiad 1

Methodoleg

Gwnaethom gyfweild dros 30 aelod o staff o bob un o'r naw Grŵp Rhaglenni Clinigol sy'n cyflogi meddygon ymgynghorol a'r tri phrif ysbyty yn y Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2010. Roedd y rhai a gyfweildwyd yn cynnwys pob un o'r tri chyfarwyddwr meddygol cynorthwyol, a sampl o gyfarwyddwyr clinigol, penaethiaid staff, penaethiaid staff cynorthwyol a staff rheoli. Gwnaethom hefyd gyfweild sampl o feddygon ymgynghorol a ddetholwyd gan y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Trafod Lleol.

Adolygwyd sampl o gynlluniau swyddi o'r cyfarwyddiaethau hyn ynghyd â dogfennaeth berthnasol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2010, gofynnwyd i feddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd gwblhau arolwg electronig. Gwnaed hyn yn bennaf i gadarnhau eu barn ar gontract y meddygon ymgynghorol. Cawsom ymatebion gan 125 o feddygon ymgynghorol, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 30 y cant.

Atodiad 2

Meincnodi sesiynau

Dadansoddiad y Bwrdd Iechyd yn ôl arbenigeddau 2009-10

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gorllewin					
Anableddau Dysgu	8.97	1.47	0.13	0.50	11.07
Anestheteg	8.78	2.95	0.10	0.11	11.93
Arenneg	9.73	2.40	0.23	0.00	12.37
Cardioleg	10.00	1.33	0.49	0.00	11.82
Clust, Trwyn a Gwddf	8.67	2.15	0.25	0.00	11.07
Damweiniau ac Achosion Brys	7.94	2.53	0.27	0.00	10.74
Dermatoleg	9.57	1.14	0.40	0.50	11.61
Endocrinoleg	7.97	2.57	0.27	0.00	10.80
Gastroenteroleg	10.71	1.53	0.27	0.00	12.51
Gynecoleg	7.75	2.17	0.61	0.00	10.53
Hematoleg (Clinigol)	9.72	1.59	0.25	0.00	11.56
Histopatholeg	11.27	1.38	0.22	0.00	12.87
Llawdriniaeth Gyffredinol	10.16	1.99	0.24	0.01	12.40
Meddygaeth Alwedigaethol	8.60	1.27	0.47	0.00	10.33
Meddygaeth Genhedlol-wrinol	7.84	2.93	0.63	0.00	11.41
Meddygaeth Geriatrig	8.71	2.12	0.67	0.29	11.79
Meddygaeth Gyffredinol	8.40	2.73	0.00	0.00	11.13
Meddygaeth Liniarol	9.53	2.00	0.00	0.00	11.53
Meddygaeth Thorasig	8.52	2.87	0.27	0.50	12.16
Offthalmoleg	8.47	1.71	0.51	0.00	10.68
Oncoleg Feddygol	7.47	3.00	0.20	0.53	11.20
Orthodonteg	9.13	3.53	0.00	0.00	12.67
Pediatreg	8.31	1.49	0.43	0.00	10.23
Radioleg	7.06	2.42	0.82	0.16	10.45
Rheumatoleg	6.04	4.13	0.44	0.00	10.62
Salwch Meddwl	7.81	2.89	0.46	0.16	11.33
Seiciatreg Fforensig	8.47	1.93	0.93	0.00	11.33
Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc	7.98	2.17	0.17	0.00	10.31

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gorllewin					
Trawma ac Orthopedeg	9.83	1.69	0.23	0.00	11.76
Wroleg	9.98	2.24	0.22	0.00	12.44

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canol a Dwyrain					
Anabledau Dysgu	7.22	2.78	0.00	0.00	10.00
Anestheteg	8.39	2.53	0.00	0.18	11.10
Arbenigeddau Meddygaeth Ddeintyddol	7.97	3.05	0.00	0.00	11.03
Arenneg	7.54	2.96	0.29	0.00	10.78
Cardioleg	8.50	3.00	0.00	0.00	11.50
Clust, Trwyn a Gwddf	9.06	2.57	0.14	0.00	11.77
Damweiniau ac Achosion Brys	8.00	3.03	0.00	0.38	11.41
Deintyddiaeth Adferol	10.00	2.00	0.00	0.00	12.00
Dermatoleg	7.90	2.69	0.00	0.00	10.59
Endocrinoleg	7.51	3.00	0.00	0.33	10.84
Gastroenteroleg	8.01	3.02	0.17	0.00	11.19
Gynecoleg	8.52	2.96	0.00	0.24	11.72
Hematoleg (Anghlinigol)	8.50	2.50	0.00	0.50	11.50
Hematoleg (Clinigol)	8.26	2.11	0.00	0.00	10.37
Histopatholeg	9.48	2.80	0.01	0.03	12.32
Llawdriniaeth ar y Geg	8.88	2.87	0.00	0.00	11.75
Llawdriniaeth Gyffredinol	9.55	2.36	0.12	0.41	12.43
Meddygaeth Alwedigaethol	7.14	2.86	0.00	0.00	10.00
Meddygaeth Awdiolegol	8.00	3.00	0.00	0.00	11.00
Meddygaeth Genhedlol-wrinol	8.00	4.00	0.00	0.00	12.00
Meddygaeth Geriatrig	8.74	2.83	0.09	0.00	11.66
Meddygaeth Gyffredinol	7.67	3.00	0.00	0.22	10.89
Meddygaeth Gymunedol	7.00	3.00	0.00	0.00	10.00
Meddygaeth Liniarol	8.18	2.73	0.00	0.91	11.82
Microbioleg Feddygol	7.00	3.00	2.00	0.00	12.00
Offthalmoleg	9.00	2.40	0.00	0.00	11.40
Oncoleg Feddygol	8.37	2.73	0.00	0.00	11.10
Patholeg Gemegol	7.49	2.62	0.00	0.00	10.11

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Prifysgol Betsi Cadwaladr, Canol a Dwyrain					
Pediatreg	7.69	2.98	0.17	0.11	10.95
Radioleg	10.03	2.67	0.06	0.17	12.92
Rheumatoleg	7.75	3.00	0.00	0.25	11.00
Salwch Meddwl	7.22	2.86	0.22	0.44	10.74
Seiciatreg Henaint	7.22	2.78	0.00	0.28	10.28
Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc	8.32	2.61	0.67	0.00	11.60
Seicotherapi	7.00	3.00	0.00	0.00	10.00
Trawma ac Orthopedeg	9.55	2.39	0.00	0.07	12.00
Wroleg	9.90	2.40	0.00	0.20	12.50
Cyfarfaledd y BILI	8.53	2.58	0.17	0.14	11.42

Dadansoddiad Cymru gyfan yn ôl arbenigeddau 2009-10

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Anestheteg	8.27	2.64	0.04	0.08	11.03
Arbenigeddau Meddygaeth Ddeintyddol	7.82	2.97	0.00	0.18	10.96
Biocemeg Glinigol	9.00	3.00	0.00	0.00	12.00
Cardioleg	8.79	2.58	0.06	0.15	11.58
Clust, Trwyn a Gwddf	8.78	2.55	0.17	0.05	11.55
Damweiniau ac Achosion Brys	8.07	2.58	0.18	0.12	10.95
Dermatoleg	7.62	2.66	0.09	0.13	10.49
Endocrinoleg	7.50	2.62	0.39	0.12	10.63
Gastroenteroleg	8.10	2.57	0.16	0.05	10.87
Geneteg Glinigol	7.75	3.33	0.31	0.10	11.48
Gynecoleg	8.47	2.56	0.13	0.10	11.27
Ffarmacoleg Glinigol a Therapiwteg	9.33	3.33	0.69	0.38	13.74
Imiwnoleg Glinigol ac Alergedd	9.00	3.00	0.00	0.00	12.00
Llawdriniaeth Gardiothorasig	9.76	2.70	0.00	0.00	12.46
Llawdriniaeth Gyffredinol	9.38	2.29	0.19	0.14	12.00
Meddygaeth Awdiolegol	7.62	2.69	0.00	0.00	10.31
Meddygaeth Genhedlol-wrinol	7.70	2.69	0.27	0.00	10.66
Meddygaeth Geriatrig	8.48	2.72	0.19	0.09	11.47
Meddygaeth Gyffredinol	8.35	2.61	0.05	0.11	11.12
Meddygaeth Gymunedol	7.08	2.69	0.00	0.38	10.15
Meddygon Teulu - Arall	7.00	3.00	0.00	0.00	10.00

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Niwroffisioleg Glinigol	7.00	3.00	0.00	0.00	10.00
Oncoleg Glinigol	8.16	2.61	0.13	0.90	11.81
Patholeg Gellog	8.86	2.86	0.00	0.00	11.71
Patholeg Gemegol	7.91	2.89	0.02	0.27	11.08
Seiciatreg Fforensig	7.95	2.75	0.24	0.55	11.49
Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc	7.94	2.47	0.24	0.14	10.80
Adsefydlu	8.00	2.40	0.40	0.43	11.23
Anableddau Dysgu	7.87	3.41	0.07	0.06	11.41
Arenneg	8.72	2.94	0.32	0.05	12.03
Clefydau Heintus	10.17	3.63	1.00	1.33	16.13
Deintyddiaeth Adferol	7.81	2.72	0.01	0.00	10.54
Deintyddiaeth Bediatrig	7.82	2.18	0.00	0.00	10.00
Hematoleg (Anghlinigol)	8.50	2.50	0.00	0.50	11.50
Hematoleg (Clinigol)	8.61	2.45	0.31	0.11	11.48
Histopatholeg	9.03	2.60	0.32	0.04	11.98
Llawdriniaeth ar y Geg	8.86	2.84	0.02	0.05	11.76
Llawdriniaeth Bediatrig	10.54	2.00	0.12	0.00	12.66
Llawdriniaeth Blastig	8.75	2.04	0.56	0.00	11.34
Meddygaeth Alwedigaethol	7.71	2.59	0.07	0.00	10.37
Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd	7.54	2.88	0.06	0.00	10.48
Meddygaeth Liniarol	7.14	2.76	0.41	0.48	10.79
Meddygaeth Thorasig	7.48	2.98	0.33	0.07	10.86
Microbioleg Feddygol	7.93	2.82	0.07	0.01	10.84
Niwrolawdriniaeth	9.35	2.28	0.20	0.00	11.83
Niwroleg	8.06	2.75	0.19	0.00	11.01
Niwroleg Bediatrig	9.29	2.38	1.13	0.00	12.80
Offthalmoleg	8.13	2.56	0.08	0.13	10.90
Oncoleg Feddygol	7.92	2.60	0.17	0.15	10.84
Orthodonteg	8.19	2.74	0.02	0.19	11.14
Pediatreg	7.90	2.68	0.19	0.23	11.01
Radioleg	8.47	2.54	0.13	0.15	11.29
Rheumatoleg	7.58	2.82	0.07	0.16	10.63
Salwch Meddwl	7.58	2.66	0.21	0.22	10.66
Seiciatreg Henaint	7.19	2.90	0.39	0.05	10.53
Seicotherapi	8.08	2.31	0.00	0.00	10.38
Trawma ac Orthopedeg	9.03	2.27	0.06	0.05	11.41
Wroleg	9.57	2.28	0.06	0.08	11.99
Cyfartaledd Pob Arbenigedd	8.34	2.60	0.14	0.13	11.21

Atodiad 3

Yr arolwg o feddygon ymgynghorol

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
1	Cyfanswm nifer yr ymatebion.		125		580
4	Canran y meddygon ymgynghorol a gafodd ddigon o rybudd am ddyddiad eu cyfarfod diwethaf i adolygu eu cynllun swydd.	Ie	87	80.6%	87.8%
5	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth o systemau gwybodaeth glinigol/gwybodaeth reoli lleol i ategu trafodaethau am eu gwaith presennol.	Ie	69	62.2%	53.4%
6	Canran y meddygon ymgynghorol sy'n defnyddio pob un o'r categorïau canlynol o wybodaeth i'w helpu i baratoi ar gyfer eu cyfarfodydd i adolygu eu cynlluniau swyddi:	Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth	40	32.0%	26.2%
		Eich gwybodaeth bersonol	102	81.6%	67.2%
		Dim	13	10.4%	5.7%
		Arall *	13	10.4%	8.4%
7a	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried gwaith y flwyddyn ddiwethaf cyn y cyfarfod cynllunio swydd.	Ie	89	81.7%	89.6%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
7b	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried eu patrwm gwaith a gweithgareddau presennol cyn y cyfarfod cynllunio swydd.	le	106	93.0%	95.9%
7c	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried y pwysau a'r rhwystrau a oedd yn peri anhawster iddynt cyn y cyfarfod cynllunio swydd.	le	96	85.7%	88.2%
7d	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried unrhyw faterion o ran llywodraethu clinigol ac archwilio clinigol a oedd wedi codi cyn y cyfarfod cynllunio swydd.	le	86	79.6%	85.1%
7e	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried effaith mentrau mewnol ac allanol (e.e. diwygiadau yn y GIG, newidiadau o ran anghenion iechyd y gymuned a gofynion hyfforddiant meddygon iau) cyn y cyfarfod cynllunio swydd.	le	69	66.3%	68.7%
7f	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried unrhyw syniadau a oedd ganddynt ar gyfer gwella'r gwasanaeth cyn y cyfarfod cynllunio swydd.	le	86	79.6%	80.1%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
7g	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried eu cynllun datblygu personol eu hunain a oedd yn deillio o'u harfarniad cyn y cyfarfod cynllunio swydd.	le	85	82.5%	81.7%
8	Canran y meddygon ymgynghorol a gafodd gyfle i weld y wybodaeth a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr a oedd yn rhan o'u hadolygiad a chynnig sylwadau arni.	le (naill ai'r holl wybodaeth neu rywfaint ohoni)	49	41.5%	44.1%
9	Canran y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio'n bennaf i'r GIG.	le	121	96.8%	93.6%
10	Canran y meddygon ymgynghorol sydd â chontract academaidd.	le	8	6.5%	11.3%
11	Canran y meddygon ymgynghorol sydd â chontract academaidd, lle yr oedd y Brifysgol yn rhan o'r broses o gytuno ar un cynllun swydd cyffredinol.	le	1	11.1%	21.6%
12	Canran y meddygon ymgynghorol y caiff eu cynllun swydd ei adolygu'n flynyddol.	le	52	42.6%	61.5%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
13	Canran y meddygon ymgynghorol y cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd:	O fewn y tri mis diwethaf	7	5.6%	14.4%
		Rhwng tri a chwe mis yn ôl	14	11.2%	14.7%
		Rhwng chwech a 12 mis yn ôl	24	19.2%	26.3%
		Rhwng 12 mis a 18 mis yn ôl	28	22.4%	17.2%
		Dros 18 mis yn ôl	41	32.8%	19.1%
		Nid wyf erioed wedi cael adolygiad o'm cynllun swydd	11	8.8%	8.3%
14	Canran y meddygon ymgynghorol y parodd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd:	Llai nag awr	74	64.9%	60.7%
		Rhwng un a dwy awr	34	29.8%	35.7%
		Mwy na dwy awr	6	5.3%	3.6%
15	Canran y meddygon ymgynghorol a ddywedodd fod yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd:	Yn iawn fwy neu lai	83	74.8%	78.6%
16	Canran y meddygon ymgynghorol a ddywedodd fod y rheolwyr cywir yn rhan o'r adolygiad o'r cynllun swydd.	Ie	97	87.4%	87.3%
17	Canran y meddygon ymgynghorol y cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd fel rhan o dîm.	Ie	25	22.5%	17.4%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
18	Canran y meddygon ymgynghorol y cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd fel rhan o dîm a gafodd y cyfle i gytuno ar ymrwymadau unigol mewn cyfarfod dilynol.	le	14	51.9%	52.8%
19a	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd gael ei gynnal mewn ffordd adeiladol a chadarnhaol.	le	96	88.1%	85.4%
19b	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd gael ei gynnal mewn lleoliad priodol.	le	104	95.4%	93.9%
19c	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd eu helpu i flaenoriaethu gwaith yn well a lleihau llwyth gwaith gormodol.	le	32	29.9%	36.1%
19d	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd eu hysgogi i drafod y camau a allai gael eu cymryd i wella arfer clinigol.	le	39	36.4%	46.3%
19e	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod yr adolygiad o'u cynllun swydd yn gyfle i drafod y posibilrwydd o foderneiddio gwasanaethau a chyflwyno ffyrdd arloesol a newydd o weithio.	le	44	40.7%	47.1%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
19f	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod yr adolygiad o'u cynllun swydd yn eu galluogi i drafod y rhwystrau a'r pwysau y maent yn eu hwynebu a chytuno ar y camau gweithredu i ymdrin â hwy.	le	60	55.6%	61.9%
19g	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod yr adolygiad o'u cynllun swydd yn nodi materion a oedd yn berthnasol i grwpiau staff, timau clinigol neu ddarparwyr gwasanaethau eraill.	le	47	43.9%	53.0%
19h	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd helpu i gyflawni eu cynllun datblygu personol a oedd yn deillio o'u harfarniad.	le	50	48.1%	54.6%
20	Canran y meddygon ymgynghorol a ddywedodd eu bod wedi cytuno ar gyfres o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer eu cynllun swydd.	le	32	28.8%	34.3%
21	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod hyder ganddynt yng nghywirdeb y wybodaeth am ddangosyddion canlyniadau.	le	15	20.3%	26.8%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
22	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod y dangosyddion canlyniadau a ddefnyddir yn briodol ac yn rhoi darlun cywir o'r gwaith.	Ie	14	19.7%	23.4%
23	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn rhan o unrhyw drafodaeth am y math o ddangosyddion a'u perthnasedd.	Ie	24	34.3%	31.8%
24	Y ganran sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dangosyddion Canlyniadau Clinigol Compass CHKS.	Ie	106	93.0%	77.0%
25	Y ganran sydd â hyder yng nghywirdeb adroddiadau Dangosyddion Canlyniadau Clinigol Compass CHKS.	Ie	18	16.8%	8.5%
26	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod eu cynllun swydd yn:		Atebodd ie	Atebodd ie	Atebodd ie
	Egluro'r ymrwymadau a ddisgwyllir ganddynt		71	56.8%	65.0%
	Trefnu eu hymrwymadau'n glir		68	54.4%	60.2%
	Helpu i fynd i'r afael â llwyth gwaith gormodol		21	16.8%	18.6%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
26	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod eu cynllun swydd yn:		Atebodd ie	Atebodd ie	Atebodd ie
		Nodi'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen i gyflawni eu cynllun swydd	24	19.2%	19.7%
		Sicrhau cydbwysedd cywir rhwng ymrwymiadau DCC a Gweithgareddau Proffesiynol Ategol (SPA)	69	55.2%	54.7%
		Nodi canlyniadau eu sesiynau SPA yn glir	28	22.4%	27.1%
		Eu galluogi i weithio'n fwy hyblyg, er enghraifft, drwy amrywio'r ymrwymiad clinigol, gan ganiatáu ar gyfer gweithio'n rhan amser, gweithio yn ystod y tymor a neilltuo blociau o amser	26	20.8%	24.7%
27	Canran y meddygon ymgynghorol sydd o'r farn bod y broses o gynllunio swyddi yn gyffredinol:	Yn eithaf defnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn	32	27.8%	37.2%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
28a	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r amser rwy'n ei dreulio ar ofal clinigol wedi cynyddu.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	61	52.1%	53.7%
28b	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae gofal cleifion wedi gwella.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	41	35.7%	28.1%
28c	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Bellach mae gennyf amcanion personol clir o ran gwelliannau i wasanaethau.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	29	25.2%	26.2%
28d	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yn gallu cynllunio gweithgarwch clinigol yn well.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	24	20.5%	23.8%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
28e	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy ngwaith yn cael ei gynllunio'n well.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	35	30.2%	32.4%
28f	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy wythnos waith yn fwy tryloyw.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	59	50.0%	55.0%
28g	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Rwy'n gallu gweithio'n fwy hyblyg.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	36	31.3%	27.1%
28h	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae gwaith tîm wedi gwella o fewn fy arbenigedd.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	38	33.6%	30.0%
28i	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yn gallu mesur fy mherfformiad a'm cyfraniad at y gwasanaethau a ddarperir.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	25	21.4%	25.0%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
28j	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghynllun swydd bellach yn adlewyrchu gofynion penodol fy arbenigedd.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	44	37.9%	41.5%
28k	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghynllun swydd yn adlewyrchu fy oriau gwaith a'm hymrwymiaid yn gywir.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	38	32.5%	40.4%
28l	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r cymorth a'r adnoddau a nodwyd yn fy nghynllun swydd i'm helpu i gyflawni fy amcanion wedi'u darparu.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	15	13.5%	15.0%
28m	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy llwyth gwaith brys yn cael ei gydnabod yn decach.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	35	34.3%	32.7%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
28n	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Rwyf wedi gallu lleihau fy oriau gwaith.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	12	10.6%	13.6%
28o	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Rwy'n gallu cymryd fy holl wyliau blynyddol, neu'r rhan fwyaf ohonynt.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	93	78.2%	75.9%
28p	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy ymrwymiadau SPA yn cael eu cydnabod yn deg.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	64	54.2%	26.9%
28q	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghanlyniadau SPA yn cael eu nodi'n glir.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	24	20.3%	26.9%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
28r	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r gydberthynas rhwng clinigwyr a rheolwyr wedi gwella.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	25	21.4%	18.3%
28s	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae gennyf gydberthynas gadarnhaol â rheolwyr.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	65	54.6%	55.3%
28t	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r amgylchedd gwaith wedi gwella.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	29	24.8%	17.2%
28u	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r gwaith o gynllunio'r gweithlu meddygol wedi gwella.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	17	14.8%	13.3%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Y ganran a atebodd yng Nghymru gyfan
28v	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Gall rhywfaint o'r gwaith a wnaaf ar hyn o bryd gael ei wneud gan grwpiau eraill o staff neu feddygon iau.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	38	32.5%	32.1%
28w	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghyflog yn adlewyrchu fy llwyth gwaith yn well.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	46	39.7%	31.7%
28x	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r cydbwysedd rhwng fy ymrwymadau i'r GIG a'm hymrwymadau eraill yn glir.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	37	36.6%	44.0%
28y	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r Contract wedi newid y ffordd rwy'n gweithio er gwell.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	29	27.1%	20.4%

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk